Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2020.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

113 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, bydd y Cynghorwyr Morgan a Phillips ychydig yn hwyr yn bresennol.

114 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| CYNGHORYDD | EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mackie | 9 - Cynnig 2 | Buddiant Personol – eiddo ar Heol y Porth, Caerdydd |
| Y Cynghorydd Carter | 9 - Cynnig 2 | Buddiant Rhagfarnol - cyflogwr yn ymwneud yn fawr â chau Stryd y Castell |
| Y Cynghorydd Williams | 9 - Cynnig 2 | Buddiant Personol – eiddo ar Heol y Porth, Caerdydd |

115 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau cyhoeddus.

116 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

| Cynghorydd | Nifer y llofnodion perthnasol | Cais |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Berman | 332 | Galw ar y Cyngor i weithredu cynlluniau i leihau blodeuo algaidd yn Llyn Parc y Rhath. |
| Y Cynghorydd Berman | 323 | Gofyn i'r Cyngor gyflymu'r bwriad i ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd |
| Y Cynghorydd Berman | 195 | Deisebu'r Cyngor i gadw Cei Britannia fel man agored (Cynllunio) |
| Y Cynghorydd Berman | 266 | Deisebu'r Cyngor i achub Roath Court Pub (Cynllunio) |
| Y Cynghorydd Carter | 220 | Gofyn i'r Cyngor ailagor Canolfan Hamdden Pentwyn |
| Y Cynghorydd Gordon | 170 | Gwrthwynebu cynnig y Gorchymyn Traffig Ffyrdd ar gyfer Heol Penhill / Heol y Gadeirlan |
| Y Cynghorydd Molik | 60 | Galw ar y Cyngor i weithredu mesurau rheoli cyflymder ar Heol Dan y Coed |
| Y Cynghorydd Robson | 54 | Galw ar y Cyngor i barhau â Chasgliadau Gwastraff Gardd drwy'r gaeaf. |
| Y Cynghorydd Taylor | 181 | Galw ar y Cyngor i gynyddu lleoedd mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg |

117 : ADOLYGIAD LLAWN O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild yr adroddiad.

Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad llawn o'u Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) o fewn 4 blynedd i'w mabwysiadu.

Yn benodol, mae angen cymeradwyo:

- Cynnal ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu CDLl drafft Caerdydd (Atodiad 1) sy'n cynnig y dylid cynnal adolygiad llawn o'r CDLl drwy baratoi CDLl Amnewid ar gyfer y cyfnod 2021-2036;

- Cynnal ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni drafft CDLl Amnewid Caerdydd (Atodiad 2); ac

- Adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganfyddiadau'r prosesau ymgynghori a'r Adroddiad Adolygu terfynol ym mis Mawrth 2021.

Eiliodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, y Cynghorydd Keith Jones, yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Symudodd y Cynghorydd McEvoy i gyfeirio'r eitem yn ôl i'r Cabinet

Eiliodd y Cynghorydd Keith Parry y cyfeiriad yn ôl i'r Cabinet.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar y cyfeiriad yn ôl, fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy a'i eilio gan y Cynghorydd Keith Parry.

COLLWYD y cynnig i gyfeirio’n ôl.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei DDERBYN.

118 : ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI’R TRYSORLYS 2020-21

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver yr adroddiad.

Rhoi gwybod i aelodau am weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2020 a'r sefyllfa ar 30 Medi 2020.

Eiliwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Chris Weaver i’r materion a godwyd yn y drafodaeth.

Cynigiodd yr Arglwydd Faer symud i’r bleidlais.

Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

119 : DATGANIADAU

**Datganiad yr Arweinydd**

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar y canlynol:

- Canolfannau Brechu
- Cyflog Byw

Yr Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Lle Masnachol, Adeilad y Chwarel**
- **Arena newydd arfaethedig ym Mae Caerdydd**
- **Dyfodol Arena'r Motorpoint**

Yr Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Costau Taith Gerdded Iâ Castell Caerdydd**

Yr Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Grantiau busnesau bach**

Yr Aelod Cabinet dro Dai a Chymunedau

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Ail-orchuddio fflatiau Lynstep**
- **Digartrefedd**
- **Tîm Allgymorth**
- **Prydau Ysgol Am Ddim**
- **Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd**

Yr Aelod Cabinet, Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Gwastraff Gardd / Yr Ysgubiad Mawr**
- **Cartref Cŵn Caerdydd**
- **Lifftiau mynediad/lifftiau â chymorth**

Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Cronfa Datblygiad y Plentyn**
- **Gweithlu Gofal Cymdeithasol, recriwtio a chadw staff**

Yr Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Gwaith Meddyliau Gweithredol**

Y Dirprwy Arweinydd, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**

- **Gweithdrefnau COVID-19 mewn Ysgolion**
- **Ymweliadau ag Ysgol Danes Court**
- **Iechyd a Diogelwch mewn ystafelloedd dosbarth**
- **Gohirio arholiadau**

Yr Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

**Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:**
- **Caeau Llandaf**
- **Cynllun Datblygu Llanrhymni – Teithio Llesol**
- **Llwybrau Beicio**

Gwasanaethau bws 24 awr

120 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Jones-Pritchard a'i eilio gan y Cynghorydd Oliver Owen, wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Derbyniwyd un diweddariad i'r cynnig.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Jones-Pritchard gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1) Y bydd y Coronafeirws yn effeithio arnon ni am beth amser. Mae wedi effeithio ar agweddau allweddol ar fywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau cymdeithasol. Mae wedi atal pobl rhag gweld eu grwpiau cyfoedion a'u ffrindiau.
2) Bod grwpiau, gan gynnwys clybiau, cymdeithasau, grwpiau crefyddol a sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau a chyfle i gwrdd yn gymdeithasol wedi gorfod stopio cwrdd yn gorfforol a bod rhai mewn perygl go iawn o orfod cau'n barhaol oherwydd hynny.
3) Bod mwy o allgáu cymdeithasol ymhlith trigolion unigol yn arwain o bosibl at salwch, yn enwedig problemau iechyd meddwl.
4) Bod nifer o grwpiau ledled y ddinas yn cael eu rhedeg gan bobl nad oes ganddynt gyfrifiadur o bosibl neu nad ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur.
5) Y gallai fod angen i grwpiau talu mwy o gostau wrth ddefnyddio technoleg cyfarfod yn rhithwir.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1) Parhau i fynd i'r afael â phroblemau unigrwydd a achosir gan y Coronafeirws ym mhob grŵp oedran ond yn enwedig yr henoed a phobl sy'n agored i niwed.
2) Cyflwyno pecyn o fesurau i gynorthwyo grwpiau lleol ledled Caerdydd a allai gynnwys y mesurau canlynol:
    - Grantiau bach wedi'u clustnodi i alluogi grwpiau lleol i fforddio tanysgrifiadau i ddefnyddio cyfleusterau cyfarfod yn rhithwir.
    - Hyfforddiant i'r rhai nad oes ganddynt brofiad o ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir er mwyn iddynt gael y budd mwyaf ohonynt.
    - Ystyried pa gymorth effeithiol a graddfa fach arall sydd wedi'i dargedu y gellir ei gynnig i grwpiau lleol ledled Caerdydd.
3) Rhoi cyngor a chymorth i grwpiau sy'n cwrdd wyneb yn wyneb eto pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

4) Sicrhau y bydd y Cyngor yn cynnig sesiynau ar-lein i grwpiau ar negeseuon allweddol i helpu trigolion fel gostyngiadau'r dreth gyngor, gwasanaethau larwm cymunedol, sut i ddysgu ar-lein a sut i gael gafael ar wasanaethau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Oliver Owen.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd y diwygiad, y Cynghorydd Lynda Thorne, i gyflwyno'r diwygiad:

Mae'r Cyngor hwn:

*1) Yn llongyfarch y Cyngor ar sefydlu'r cynllun gwirfoddoli 'Law yn Llaw Caerdydd' yn gyflym gan ddod â'r holl grwpiau cydgymorth a sefydliadau lleol eraill, megis C3SC, at ei gilydd mewn un lle i helpu i hyrwyddo eu gwasanaethau ar hyn o bryd. Roedd y cynllun yn cefnogi unigolion yr oedd yn ofynnol iddynt hunan-ynysu a/neu heb unrhyw gymorth neu'n cael trafferth yn ariannol.*

*Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi:*

2) Y bydd y Coronafeirws yn effeithio arnom am beth amser. Mae wedi effeithio ar agweddau allweddol ar fywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau cymdeithasol. Mae wedi atal pobl rhag gweld eu grwpiau cyfoedion a'u ffrindiau.
3) Bod grwpiau, gan gynnwys clybiau, cymdeithasau, grwpiau crefyddol a sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau a chyfle i gwrdd yn gymdeithasol wedi gorfod stopio cwrdd yn gorfforol a bod rhai mewn perygl go iawn o orfod cau'n barhaol oherwydd hynny.
4) Bod mwy o allgáu cymdeithasol ymhlith trigolion unigol yn arwain o bosibl at salwch, yn enwedig problemau iechyd meddwl.
5) Bod nifer o grwpiau ledled y ddinas yn cael eu rhedeg gan bobl nad oes ganddynt gyfrifiadur o bosibl neu nad ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur.
6) Y gallai fod angen i grwpiau talu mwy o gostau wrth ddefnyddio technoleg cyfarfod yn rhithwir.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1) Parhau i ddefnyddio ei ymdrechion gorau i fynd i'r afael â phroblemau unigrwydd a achosir gan y Coronafeirws ym mhob grŵp oedran ond yn enwedig ~~yr henoed~~ pobl bregus *a phobl hŷn*.

2) I ~~gyflwyno pecyn o fesurau~~ *er mwyn defnyddio swyddogion cymorth cymunedol y Cyngor i barhau* i gynorthwyo grwpiau lleol ledled Caerdydd. ~~a allai gynnwys y mesurau canlynol~~

*3) Archwilio syniad o ddarparu cronfa grantiau bach i gefnogi grwpiau gwirfoddol lleol dan arweiniad y gymuned i ariannu gweinyddiaeth a hyfforddiant.*

- ~~wedi'i neilltuo i ganiatáu i grwpiau lleol fforddio tanysgrifiadau i ddefnyddio cyfleusterau cyfarfod rhithwir.~~
- ~~Hyfforddiant i'r rhai nad ydynt yn brofiadol o ran sut i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir i'w ddefnyddio er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl.~~
- ~~Er mwyn ystyried sut y gellir cynnig cymorth effeithiol arall wedi'i dargedu ar raddfa fach i grwpiau lleol ledled Caerdydd.~~

3) ~~Rhoi cyngor a chymorth i grwpiau sy'n dychwelyd i gyfarfod yn bersonol pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.~~

4) ~~I~~ Sicrhau bod y Cyngor ~~yn~~ *yn parhau i* gynnig sesiynau ar-lein i grwpiau ar negeseuon allweddol i helpu preswylwyr *ar faterion* fel gostyngiadau yn y dreth gyngor, gwasanaethau larwm cymunedol, sut i ddysgu ar-lein a sut i gael gafael ar wasanaethau i gefnogi pobl sy'n byw â dementia.

Byddai'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

1) Yn llongyfarch y Cyngor ar sefydlu'r cynllun gwirfoddoli 'Law yn Llaw Caerdydd' yn gyflym gan ddod â'r holl grwpiau cydgymorth a sefydliadau lleol eraill, megis C3SC, at ei gilydd mewn un lle i helpu i hyrwyddo eu gwasanaethau ar hyn o bryd. Roedd y cynllun yn cefnogi unigolion yr oedd yn ofynnol iddynt hunan-ynysu a neu heb unrhyw gymorth neu'n cael trafferth yn ariannol.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi:

2) Y bydd y Coronafeirws yn effeithio arnom am beth amser. Mae wedi effeithio ar agweddau allweddol ar fywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau cymdeithasol. Mae wedi atal pobl rhag gweld eu grwpiau cyfoedion a'u ffrindiau.
3) Bod grwpiau, gan gynnwys clybiau, cymdeithasau, grwpiau crefyddol a sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau a chyfle i gwrdd yn gymdeithasol wedi gorfod stopio cwrdd yn gorfforol a bod rhai mewn perygl go iawn o orfod cau'n barhaol oherwydd hynny.
4) Bod mwy o allgáu cymdeithasol ymhlith trigolion unigol yn arwain o bosibl at salwch, yn enwedig problemau iechyd meddwl.
5) Bod nifer o grwpiau ledled y ddinas yn cael eu rhedeg gan bobl nad oes ganddynt gyfrifiadur o bosibl neu nad ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur.
6) Y gallai fod angen i grwpiau talu mwy o gostau wrth ddefnyddio technoleg cyfarfod yn rhithwir.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1) Parhau i ddefnyddio ei ymdrechion gorau i fynd i'r afael â phroblemau unigrwydd a achosir gan Coronafeirws ym mhob grŵp oedran ond yn enwedig pobl fregus a hŷn.

2) Defnyddio swyddogion cymorth cymunedol y Cyngor i barhau i gynorthwyo grwpiau lleol ledled Caerdydd.

3) Ymchwilio i'r ddarpariaeth o gronfa grantiau bach i gefnogi grwpiau gwirfoddol lleol a arweinir gan y gymuned i ariannu gweinyddiaeth a hyfforddiant.

5) Sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gynnig sesiynau ar-lein i grwpiau ar negeseuon allweddol i helpu preswylwyr ar faterion fel gostyngiadau yn y dreth gyngor, gwasanaethau larwm cymunedol, sut i ddysgu ar-lein a sut i gael gafael ar wasanaethau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Eiliodd y Cynghorydd Elsmore y diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar hyn.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Jones-Pritchard i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Derbyniodd y Cynghorydd Robson y diweddariad.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Jones-Pritchard.

DERBYNIWYD y cynnig yn unfrydol.

121 : CYNNIG 2

*(Gadawodd y Cynghorydd Carter y cyfarfod yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon gan iddo ddatgan buddiant personol a rhagfarnol )*

*(Ailbwysleisiodd y Cynghorwyr Mackie a Williams eu buddiannau personol mewn perthynas â'r eitem hon)*

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig, a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy a'i eilio gan y Cynghorydd Keith Parry, wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Roedd un diwygiad wedi dod i law

Gwahoddwyd y Cynghorydd McEvoy gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

1. Mae'r cyngor hwn yn gresynu at gau'n annoeth Stryd y Castell.

2. Nodwn yr aflonyddwch a achosir gan y cau.

3. Rydym hefyd yn mynegi pryder am y milltiroedd ceir ychwanegol sy'n cael eu gyrru'n awr a'r effaith negyddol ar yr amgylchedd.

4. Mae'r Cyngor yn penderfynu agor Stryd y Castell cyn gynted ag y gellir ei wneud yn ymarferol ym mis Ionawr 2021, tra'n darparu ar gyfer lonydd beicio diogel.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Keith Parry

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd y diwygiad, y Cynghorydd Jayne Cowan i gyflwyno'r diwygiad:

1. Mae'r cyngor hwn yn gresynu at gau'n annoeth Stryd y Castell *i bob traffig a'r diffyg ymgynghori cyn cau'r ffordd.*

2. Nodwn yr aflonyddwch a achosir gan y cau.

3. Rydym hefyd yn mynegi pryder am y milltiroedd ceir ychwanegol sy'n cael eu gyrru'n awr a'r effaith negyddol ar yr amgylchedd.

4. Mae'r Cyngor yn penderfynu agor Stryd y Castell cyn gynted ag y gellir ei wneud yn ymarferol ym mis Ionawr 2021, tra'n darparu ar gyfer lonydd beicio diogel.

   *Rydym yn galw ar y Cabinet i sicrhau bod yr holl ffyrdd arfaethedig sydd ar gau yn y dyfodol yn cynnal ymgynghoriad â busnesau a thrigolion yr effeithir arnynt. Os yw COVID yn dal i fod yn bresennol, gellir cynnal cyfarfodydd yn electronig a rhaid i'r Cyngor wneud defnydd llawn o gyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod yr holl safbwyntiau'n cael eu hystyried.*

Byddai'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:

1. Mae'r cyngor hwn yn gresynu at gau'n annoeth Stryd y Castell i bob traffig a'r diffyg ymgynghori cyn cau'r ffordd.

2. Nodwn yr aflonyddwch a achosir gan y cau.

3. Rydym hefyd yn mynegi pryder am y milltiroedd ceir ychwanegol sy'n cael eu gyrru'n awr a'r effaith negyddol ar yr amgylchedd.

4. Mae'r Cyngor yn penderfynu agor Stryd y Castell cyn gynted ag y gellir ei wneud yn ymarferol ym mis Ionawr 2021, tra'n darparu ar gyfer lonydd beicio diogel.

   Rydym yn galw ar y Cabinet i sicrhau bod yr holl ffyrdd arfaethedig sydd ar gau yn y dyfodol yn cynnal ymgynghoriad â busnesau a thrigolion yr effeithir arnynt. Os yw COVID yn dal i fod yn bresennol, gellir cynnal cyfarfodydd yn electronig a rhaid i'r Cyngor wneud defnydd llawn o gyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod yr holl safbwyntiau'n cael eu hystyried.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Williams

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar hyn.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd McEvoy i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Derbyniodd y Cynghorydd McEvoy y Diweddariad.

Symudodd yr Arglwydd Faer i bleidleisio ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy.

COLLWYD y Cynnig fel y'i diwygiwyd.

122 : CWESTIYNAU AR LAFAR

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Gyda Stryd y Castell i'w hailagor i dacsis a bysiau ond nid ceir, pa ddarpariaethau fydd ar waith i'r anabl gael mynediad i ganol y ddinas, ac yn enwedig yr ardal hon, ac a fyddai parcio dynodedig i'r anabl yn agos?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae'r holl ddarpariaeth a fodolai o'r blaen yn dal i fod ar waith, nid oedd cyfleusterau parcio pwrpasol i bobl anabl ar Heol y Dug a Stryd y Castell cyn iddynt gau. Felly, ni fydd y newidiadau dros dro a wnaed ar gyfer ailagor Heol y Dug a Stryd y Castell i ganiatáu tacsis a bysiau yn arwain at golli unrhyw leoedd parcio i'r anabl.

Bu ymgynghori helaeth â chynrychiolwyr o grwpiau anabledd a datblygwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth gynllunio a gweithredu'r cynllun dros dro.

Bydd mynediad llawn i'r holl feysydd parcio yng Nghanol y Ddinas, mae Canol y Ddinas ar agor ar gyfer busnes a gall pobl barcio o hyd, os bydd angen, fel y gwnaethant o'r blaen.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hudson

Pam mae'r mannau parcio i bobl anabl wedi diflannu o Heol y Porth os gwelwch yn dda?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Fy nealltwriaeth i yw eu bod yn cael eu disodli, gallant fod yn y camau dylunio ond byddaf yn sicr yn gwirio hynny ar eich rhan.

Cwestiwn - y Cynghorydd Carter

Y diweddariad diweddaraf a gawsom oedd y byddai Gleision Caerdydd yn defnyddio Canolfan Hamdden Pentwyn drwy fis Tachwedd. A all yr aelod cabinet roi syniad pryd y bydd y ganolfan ar agor eto i'r gymuned?

Ateb – y Cynghorydd Bradbury

Gallaf gadarnhau y bydd y ganolfan ar agor i'r cyhoedd fel cyfleuster brechu torfol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro am 12 mis.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae Canolfan Hamdden Pentwyn yn gweithredu ar ddiffyg ariannol sylweddol, a wnaed yn waeth gan y cyfyngiadau cloi cychwynnol yn gynharach eleni a lefelau defnydd is oherwydd protocolau gweithredu diogel Covid-19.

Mae trafodaethau cadarnhaol rhwng pob parti hefyd yn cael eu cynnal er mwyn ystyried cyfleoedd buddsoddi a gwella er budd y gymuned. Gobeithio y gellir gwneud y gwelliannau hyn, sy'n amodol ar gymeradwyo Cyllid Cyfalaf, yn ystod y cyfnod y mae'r Ganolfan yn cael ei defnyddio gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn y frwydr yn erbyn Covid-19.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Carter

A allech gadarnhau wrthym heno, a fydd Gleision Caerdydd yn parhau i gael mynediad i'r ganolfan hamdden yn ystod y cyfnod brechu ac a allwch hefyd ein sicrhau y bydd cynnig yn cael ei gyflwyno yn y gyllideb gyfalaf i fuddsoddi yn y ganolfan hamdden y flwyddyn nesaf.

Ateb – y Cynghorydd Bradbury

Ni allaf achub y blaen ar unrhyw benderfyniadau ar y gyllideb ond yr wyf yn optimistaidd. Bydd, bydd Gleision Caerdydd yn defnyddio’r llawr uwch a bydd Ysbyty Athrofaol Cymru a'r tîm yn defnyddio'r llawr is, y rhesymau dros hynny na allaf eu datgelu'n gyhoeddus ond yr wyf wedi dweud wrthych yn breifat. Rwy’n hapus iawn i gael cyfarfodydd penodol yn ystod yr holl gyfnod hwn i drafod unrhyw bwynt sydd gennych chi neu’ch cydweithwyr yn y ward ac rwyf am ddiolch i bobl Pentwyn am ein cefnogi i ddefnyddio eu canolfan hamdden i arwain y frwydr allan o Covid-19 a gobeithio i ryw ymdeimlad o normalrwydd.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dilwar Ali

Rwy’n falch i weld arwyddion terfyn cyflymder o 20mya yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Llandaf yn Station Road ac ysgolion cyfagos. A allwch gadarnhau pryd y bydd hyn yn cael ei wneud yn Gabalfa Avenue, Heol Aberporth a Ffordd y Coleg?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rydym wedi bod yn cyflwyno terfynau cyflymder 20mya dros dro mewn canolfannau ardal ar draws y ddinas fel rhan o'n gwaith adfer Covid-19. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ganolfannau siopa lleol a dosbarth lle'r oedd y terfynau cyflymder yn 30mya o'r blaen. Rydym wedi bod yn ymdrechu'n galed i gael cyflymder cerbydau i lawr.

Cwblhawyd Heol yr Orsaf yng Ngogledd Llandaf fel rhan o Gam 1 y gwaith hwn ac rydym wrthi'n cyflwyno Cam 2, sy'n cynnwys y siopau lleol ar Gabalfa Avenue yng Ngogledd Llandaf. Bydd y terfyn cyflymder 20mya dros dro newydd hwn yn cyd-fynd â'r terfyn cyflymder 20mya presennol ar Heol Colwill y tu allan i Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Glan Ceubal.

Cwestiwn - y Cynghorydd Robson

Mae trigolion ledled Caerdydd yn dal i gysylltu â mi i gwyno nad oes casgliad gwastraff gardd wedi'i drefnu tan fis Mawrth. A wnewch wrando ar y pryderon a fynegwyd ac adfer casgliad misol o wastraff gardd?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Penderfynwyd atal casgliadau gwastraff gardd er mwyn sicrhau bod gennym wydnwch o fewn ein gweithlu i gynnal a darparu gwasanaethau rheng flaen statudol yn ystod y pandemig presennol.

Gostyngodd argaeledd staff rheng flaen 33% ar anterth y pandemig, gan olygu ein bod yn gorfod atal gwastraff gardd, ailgylchu cymysg a chasgliadau gwastraff bwyd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn lliniaru yn erbyn ailadrodd y senario hwn, rydym wedi penderfynu atal casgliadau gwastraff gardd gan mai hwn fydd yn cael yr effaith leiaf ar drigolion Caerdydd yn ystod misoedd y gaeaf. Yn anffodus, nid ydym mewn sefyllfa i adfer casgliadau gwastraff gardd cyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

Mae ein safleoedd CAG yn Ffordd Lamby a Heol Bessemer ar agor drwy gydol y gaeaf a byddant yn derbyn gwastraff gardd a bydd casgliad gwastraff gardd untro ym mis Ionawr.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Robson

Mae pobl yn ceisio mwynhau eu gerddi yn yr oriau golau dydd sydd ganddynt, yn enwedig gan na allant fynd allan, ac maent yn gorfod storio coed a chwymp dail, lle mae rhai o hynny'n dod i mewn o'r stryd. Siawns nad yw casgliad misol yn wasanaeth gofynnol y gall y Cyngor hwn ei ddarparu hyd yn oed yn y sefyllfa bresennol?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Cafodd 33% o'n staff eu effeithio, nid yw hwn yn wasanaeth hanfodol, ac ni fyddai'r tunelli gwirioneddol yn cyfiawnhau i'n lorïau fynd allan i gasglu. Mae'n rhaid i ni ystyried bod y pandemig yn parhau ac yn gwaethygu, mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth gwastraff ar gyfer y Ddinas hon, ar y cyfan dyma'r peth iawn i'w wneud nid yn unig i'r Ddinas ond i'n staff.

Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey

Beth yw polisi'r cyngor o ran Cymdogaethau Traffig Isel (CTIau), ac a fydd yn ceisio gweithredu unrhyw rai, yn enwedig oddi ar gefn astudiaeth a ganfu nad oes unrhyw broblemau ecwiti cymdeithasol clir yn ymwneud â CTIau?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rwyf yn ymwybodol o'r astudiaeth yr ydych yn cyfeirio ati a'r lefel gynyddol o ddiddordeb mewn Cymdogaethau Traffig Isel. Rwyf wedi gofyn i swyddogion

ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu CTIau yng nghyd-destun Caerdydd. Fel cam cyntaf, byddai'n gwneud synnwyr gwneud rhywfaint o waith ymchwilio i bennu dichonoldeb CTIau mewn gwahanol ardaloedd o'r ddinas.

Byddwn yn siarad â Llywodraeth Cymru am sut y gallai menter yng Nghaerdydd, ac unrhyw waith dichonoldeb sydd ei hangen, gael ei hariannu o fewn meini prawf cyfredol eu cyllid grant.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Cunnah

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r busnesau hynny sy'n defnyddio'r grantiau sy'n gysylltiedig â Covid a weinyddir gan yr awdurdod lleol? Rwy'n gwybod bod llawer o fusnesau bach yn Nhreganna wedi gwneud cais. Hoffwn ddiolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion hefyd. Ar yr adegau hynny pan fydd unrhyw broblem wedi digwydd, mae swyddogion wedi gweithredu’n chwim er mwyn sicrhau bod pob busnes cymwys yn cael yr arian yn gyflym.

Ateb – y Cynghorydd Weaver

Cyfeiriaf at yr ateb a nodir yn fy natganiad ysgrifenedig, mae tîm Cyllid y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Datblygu Economaidd i weinyddu dros 7,500 o grantiau busnes gwerth dros £70m i gefnogi busnesau yn ystod pandemig Covid-19.

Yn ogystal, mae swyddogion wedi gweithio i hyrwyddo'r defnydd o gyllid ehangach gan fusnesau lleol, gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae hyn i gyd wedi cymryd cryn ymdrech i'w roi ar waith, yn enwedig o ran gweithredu'r grantiau diweddar sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Atal Byr, a oedd yn gofyn am ymateb chwim iawn. Derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau hyd yma am grantiau sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Atal Byr ac mae'r nifer hwn yn parhau i godi.

Hoffwn ddiolch hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi gweithio gyda swyddogion y cyngor i nodi cyllid pellach ar gyfer grantiau yng Nghaerdydd oherwydd y lefelau uchel o alw.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod busnesau lleol yn dal i ddioddef, a rhaid i ni barhau i edrych ar sut y gallwn eu cefnogi drwy'r pandemig parhaus ac yn ystod y cyfnod adfer.

Cwestiwn - y Cynghorydd Robson

Pa orfodaeth ychwanegol fydd yn cael ei chynnal i sicrhau bod y cyfyngiadau Coronafeirws presennol yn cael eu cynnal ym Marchnad Nadolig Caerdydd a hefyd yng nghanol y ddinas ehangach yn dilyn rhai o'r pethau a welwyd ers i'r Cyfnod Atal Byr ddod i ben?

Ateb – y Cynghorydd Michael

O ran y Farchnad Nadolig, mae'r gweithredwr wedi cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau COVID-19. Mae'r gweithredwr wedi cyhoeddi canllawiau i bob stondinwr ac mae hefyd wedi cyflogi pedwar stiward i fonitro gweithrediad y canllawiau gan stondinwyr ac i orfodi cydymffurfiaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno stiward marchnad Nadolig pwrpasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dilyn.

Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno pedwar marsial diogelwch i ganol y ddinas i helpu i sicrhau bod ymbellhau cymdeithasol yn cael ei gynnal ac i gefnogi gweithredwyr manwerthu gydag unrhyw fannau poeth neu broblemau ciwio a allai godi. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynyddu'r nifer hwn ymhellach yn y dyddiau nesaf ac mae'n ystyried gweithredu ymyriadau eraill fel trosglwyddo negeseuon i'r cyhoedd er mwyn aros yn ddiogel a dilyn y rheolau dros system seinydd.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Robson

Yr wyf yn pryderu am luniau yr wyf wedi'u gweld o Ganol y Ddinas y penwythnos diwethaf a'r wythnosau blaenorol, lle'r oedd yn amlwg nad oedd pobl yn ymbellhau'n gymdeithasol. Beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod pobl yn cadw at ymbellhau cymdeithasol i atal lledaeniad y feirws hwn?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Dyna'n union pam yr ydym wedi cymryd y camau sydd gennym gyda Stryd y Castell, yr ydych yn anghytuno'n chwyrn â hwy, ac i sicrhau bod gennym stiwardiaid marchnad, y system seinydd ac i gymryd pob cam a allwn i annog pobl i ddilyn y rheoliadau. Byddai'n helpu pe bai pleidiau eraill yn cyfleu'r neges honno hefyd, yn hytrach na defnyddio'r pandemig pan fydd yn addas iddynt at eu dibenion gwleidyddol eu hunain.

Cwestiwn – y Cynghorydd Boyle

Pa gynlluniau sydd ar y gweill i leihau'r risg o anaf i blant ysgol sy'n cerdded i Ysgol Gynradd Howardian ar hyd Hammond Way?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae swyddogion yn ymwybodol o'r problemau sy'n gysylltiedig â cheir sy'n teithio i Ysgol Gynradd Howardian drwy Hammond Way yn ystod cyfnodau brig y bore a'r prynhawn.

Y ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â'r problemau hyn fyddai cyflwyno cynllun Stryd Ysgol ar Hammond Way a chysylltu strydoedd.

Rydym yn bwriadu ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu cynllun o'r fath yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Boyle

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi rhybuddio am beryglon ceir yn gwnewud troeon tri phwynt yn y ffyrdd o amgylch Ysgol Gynradd Howardian ac rydym wedi rhybuddio y byddai'r datblygiadau yn yr ardal yn gwaethygu'r risgiau hynny. Caiff y rhybuddion hynny eu cynnwys yn ffurfiol yn ein gwrthwynebiadau cyhoeddus i nifer o geisiadau cynllunio cysylltiedig. Fel y rhagwelwyd, mae nifer o achosion lle bron bu trawiadau wedi digwydd wrth i geir weithredu troeon tri phwynt yn y ffyrdd o amgylch yr ysgol. Rydym ni a'ch swyddogion wedi derbyn negeseuon e-bost yn dweud wrthym bod beth rydym wedi rhybuddio yn ei gylch, nawr yn digwydd. Felly, a wnewch ymrwymo i wneud Hammond Way yn brif flaenoriaeth i'r rhaglen strydoedd ysgol a chyflymu'r broses o ddargyfeirio'r arian hwnnw i gynllun y gwyddoch ei fod yn hanfodol, ac mae'r strydoedd yn peri risg ddifrifol iawn i ddiogelwch plant.

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rwy’n bryderus clywed hynny, a chlywed am faterion eraill ledled y Ddinas a dyna pam rydym wedi dod â’r rhaglen ar gyflymder, nad oes unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru na gweddill y DU wedi’i wneud. Mae 20 ar waith ac rydym yn ceisio gwneud mwy ar frys. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn yr ysgol gyda chynlluniau teithio llesol ac rydym yn ymrwymo i ddatrys y mater mor gyflym ag y gallwn.

Cwestiwn – y Cynghorydd Henshaw

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i ddatblygu llwybr beicio ar wahân i gysylltu Sblot â chanol y ddinas?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Bydd cynlluniau i osod llwybr beicio dros dro, sy'n darparu llwybr oddi ar y ffordd sy'n cysylltu Sblot â chanol y ddinas drwy Stryd Tyndall, yn cael eu gweithredu yn y Flwyddyn Newydd. Diolch i bawb am eu cymorth gyda hyn, sy'n newyddion gwych i bobl Sblot.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dianne Rees

Bydd llawer ohonom wedi derbyn nifer o gwynion am y defnydd o dân gwyllt swnllyd a'u heffaith ar anifeiliaid a phlant ifanc. Arferai tân gwyllt gael ei ganiatáu ar y 5ed Tachwedd am un noson. Heddiw, mae'n ymddangos bod tymor o dân gwyllt bob nos o fis Medi i fis Ionawr. Mae tân gwyllt modern yn fwy pwerus a pheryglus nag erioed gyda sŵn uchel iawn. A yw'r cyngor yn deall lefel y pryder ynghylch defnyddio tân gwyllt didrwydded a beth y mae'n bwriadu ei wneud ynglŷn â'r niwsans cynyddol hwn?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Ydyn, rydym yn gwneud hynny, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cynnal gwiriadau bob blwyddyn i sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân gwyllt berthnasol, gan gynnwys rheolaethau oedran. Rydym hefyd yn deall y trallod y gall tân gwyllt ei achosi i anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill, ac

mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r RSPCA ar y mater.

Mewn cyfarfod o Gyd-bwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ym mis Rhagfyr y llynedd, cytunwyd y byddai dull yn cael ei wneud i Lywodraeth y DU yn gofyn am weithredu mewn ymateb i'r pryderon a leisiwyd gan yr RSPCA a Pwyllgor Deisebau'r Senedd ar y mater hwn, gyda'r bwriad o roi newidiadau ar waith cyn tymor tân gwyllt 2020. Yn anffodus, ni chafwyd yr ymateb y gobeithiwyd amdano gan Lywodraeth y DU ac mae'n siomedig, heb newid yn y gyfraith ynghylch defnyddio tân gwyllt, nad oes llawer y gellir ei wneud ar lefel leol i leihau eu defnydd. Wedi dweud hynny, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i hyrwyddo cyngor i berchnogion anifeiliaid ar eu cadw'n ddiogel ac yn ddigynnwrf. Bûm mewn cynhadledd aer lân ychydig flynyddoedd yn ôl a chofiaf iddynt ddweud bod mwy o lygredd ar noson Tân Gwyllt nag y mae unrhyw gyfleuster llosgydd yn ei gynhyrchu am flwyddyn gyfan. Mae'n drychinebus i newid yn yr hinsawdd; byddwn yn annog pob un ohonoch i wneud yr hyn a allwch i atal y defnydd diangen o dân gwyllt.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Dianne Rees

A oes unrhyw beth y gellir ei wneud ar lefel is-ddeddf leol, i gyfyngu ar werthu tân gwyllt a hefyd i gyfyngu ar nifer y diwrnodau a'r amseroedd y gall tân gwyllt gael eu gollwng, heb drwydded gan unigolion.

Ateb – y Cynghorydd Michael

Mae hyn yn rhywbeth i'r Llywodraeth Ganolog ac nid yw'n ymddangos eu bod am wneud hynny. Byddwn yn eich annog i ddefnyddio eich cysylltiadau yn y Llywodraeth Ganolog i'n galluogi i wneud hynny'n lleol.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Molik

Sawl plentyn sydd ddim yn mynychu ein hysgolion a sawl sy'n cael eu haddysgu gartref?

Sut mae'r niferoedd hyn wedi newid dros y 4 blynedd diwethaf?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Mae 299 o ddisgyblion nad ydynt wedi dychwelyd i'r ysgol a 322 arall gyda llai na 20% o bresenoldeb.

O fewn y ffigyrau hyn, bydd nifer fach o ddisgyblion nad ydynt eto wedi gallu dychwelyd o dramor oherwydd pandemig Covid-19, a'r rhai sydd wedi cael eu cynghori i beidio â dychwelyd ar sail feddygol oherwydd eu cyflwr iechyd eu hunain neu aelod o'r teulu.

Bedair blynedd yn ôl, roedd 32 o ddisgyblion gyda llai na 20% yn bresennol ar yr adeg hon yn ystod y flwyddyn, felly mae'n ymddangos bod pryder am Covid-19 yn cyfrif am y rhan fwyaf o achosion.

Bu cynnydd yn nifer y teuluoedd sydd wedi dewis addysgu gartref, gyda 119 o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref newydd ers 1af Medi 2020, gan ddod â'r cyfanswm i 328.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Molik

A ydym wedi edrych ar pam mae mwy o rieni'n addysgu gartref? Ai oherwydd nad ydynt yn cael y ddarpariaeth yn yr ysgolion lleol neu a yw'n ymwneud mwy â'r cwricwlwm? Sut mae lles a diogelwch plant gartref yn cael eu cefnogi gan fod gennym ddyletswydd gofal tuag atynt?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Mae'n ffenomen ledled y DU ac mae wedi bod yn digwydd ers rhai blynyddoedd, ond mae wedi cynyddu dros y deuddeg mis diwethaf. Canfu arolwg diweddar yn Lloegr gynnydd o 38% ers diwrnodau cyfrifiad ysgolion cymharol ers 2019. Y rhesymau a roddir yw ffordd o fyw, ideolegol ac athronyddol ac yna pryder a ffobia, bwlio a nifer fach iawn sy'n aros am le yn yr ysgol. Nid yw hwn yn fater sy'n benodol i Gaerdydd ac rwy'n rhannu eich pryderon oherwydd er y gallai rhai rhieni fod wedi cael addysg gartref yn y pandemig yn bleserus ac wedi gwneud y dewis, mae hynny'n gadarnhaol ond os yw am resymau negyddol fel bwlio, yna mae'n peri pryder. Rwy'n rhannu eich diddordeb mewn cael rhagor o fanylion. Mae pryderon ehangach ynghylch diogelu a phan nad yw plant wedi'u cofrestru gyda Meddyg ac efallai na fyddwn hyd yn oed wedi eu nodi yn y system.

Cwestiwn - y Cynghorydd Lister

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am faint o deuluoedd ledled y Ddinas sy'n elwa o Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, ac ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y ffigurau ar gyfer eu ward os gofynnir amdanynt?

Ateb – y Cynghorydd Hinchey
Nod y Cynnig Gofal Plant yw cynorthwyo rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, i gynyddu incwm gwario teuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel ac i gefnogi datblygiad plant a pharodrwydd yr ysgol.

Ers i Gaerdydd ddechrau gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ym mis Hydref 2018, mae cyfanswm o 3,744 o blant wedi derbyn gofal plant wedi'i ariannu o dan y cynllun (mae hyn yn ymwneud â 3,491 o deuluoedd gwahanol).

Cyfanswm gwerth arbed costau i deuluoedd yng Nghaerdydd rhwng mis Hydref 2018 a mis Hydref 2020 oedd £9,159,894.40.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel wardiau am nifer y plant sy'n elwa o'r cynllun ar gael yn rhwydd i'r aelodau ar gais.

Rwyf wedi edrych ar Grangetown, mae'r niferoedd yn amrywio rhwng 35 a 46.

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Faint o bwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd wedi'u gosod yng Nghaerdydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hyd yma?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Rydym wedi defnyddio cyllid Llywodraeth y DU gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel i osod 18 pwynt gwefru mewn 10 lleoliad yn y ddinas a byddwn yn gosod 10 pwynt gwefru arall mewn 5 lleoliad arall cyn bo hir. Yn ogystal, rydym wedi gosod 1 pwynt gwefru cyflym, gyda mwy o'r rhain yn cael eu gosod mewn 5 lleoliad arall yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae gwaith i ddarparu mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys trafodaethau gyda chyflenwyr trydan, yn mynd rhagddo er mwyn ehangu'r ddarpariaeth yn y ddinas i gefnogi ein strategaeth Un Blaned Caerdydd.

Cwestiwn – y Cynghorydd Taylor

Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos mai Caerdydd sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, ochr yn ochr â gostyngiad cenedlaethol yn nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu. Pa gamau y mae Cyngor Caerdydd a Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn eu cymryd i gynyddu nifer y plant sy'n cael eu sefydlu i'w mabwysiadu?

Ateb – y Cynghorydd Hinchey

Rhaid ystyried y gostyngiad cenedlaethol yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol yn nifer y plant sy'n cael eu hatgyfeirio i'w mabwysiadu, nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu tynnu'n ôl oherwydd bod cynlluniau sefydlogrwydd amgen yn cael eu gwneud, a'r gostyngiad yn nifer y Gorchmynion Lleoli. Er enghraifft, gwnaed 71 o Orchmynion Lleoli yn rhanbarth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn 2019-20, o'i gymharu â 101 o Orchmynion Lleoli yn cael eu gwneud yn 2018-19.

Er gwaethaf hyn, mae Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd wedi parhau i leoli'r nifer uchaf o blant i'w mabwysiadu yng Nghymru ac, yn 2019-20, roedd ychydig dros hanner y rhain yn lleoliadau yng Nghaerdydd.

Mae Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran canfod teuluoedd drwy ddefnyddio ystod o fecanweithiau ac ymgysylltu ag asiantaethau allanol os na ellir dod o hyd i leoliad priodol yn y rhanbarth. Mae ganddynt hefyd Strategaeth Farchnata a Swyddog Marchnata i recriwtio mwy o fabwysiadwyr, gyda gwelliant sylweddol yn cael ei wneud yn y maes hwn drwy gynyddu nifer yr ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy.

Gyda buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu, gall Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd hefyd gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel gyda chymorth cynnar, gwaith pontio ac arbenigedd arall i wella profiad teuluoedd sy'n mabwysiadu ein plant a gwneud lleoliadau'n fwy tebygol o lwyddo.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cynghorydd Taylor yn tynnu fy sylw at y ddogfen bolisi benodol y mae'n cyfeirio ati, ond i roi rhywfaint o hyder, ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r ystod o blant sy'n derbyn gofal, sy'n dod i mewn i'r system derbyn gofal yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru ond yr wyf wedi tynnu rhywfaint o ymchwil heddiw dim ond i ddangos y niferoedd. Mae'r ffigyrau'n amrywio o 22 fesul 1000 yn Nhorfaen i 4.5 fesul 1000 yng Nghaerfyrddin; mae Caerdydd yng nghanol yr ystod ar 1.5 yn uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan.

Cwestiwn – y Cynghorydd Gordon

A yw Ysgol Gynradd Kitchener yn cael ei chynnwys yn y cynllun Strydoedd Ysgol drwy osod camerâu teledu cylch cyfyng, fel mewn ysgolion cynradd eraill, yng Nglanyrafon ac ar draws Caerdydd? Mae Teras y Rheilffordd yn brysur gyda cheir bob bore a phrynhawn ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae cronni ceir, rhedeg eu peiriannau a throi yn y ffordd pengaead cul hwn yn peri gofid i drigolion sy'n byw yn Nheras y Rheilffordd ac sy'n peryglu ein plant yng Nglanyrafon sy'n cerdded i'r ysgol.

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae Ysgol Gynradd Kitchener yn un o nifer o ysgolion lle rydym yn ceisio gweithredu cynlluniau Stryd Ysgol newydd. Mae swyddogion yn paratoi i gyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid i weithredu cynlluniau Stryd Ysgol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Unwaith y bydd cyllid wedi'i sicrhau, byddem yn ceisio gweithredu cynllun Ysgol Gynradd Kitchener cyn gynted â phosibl.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Gordon

Mae'r ysgol mewn ffordd pengaead felly byddai'n un hawdd iawn i'w wneud. Pryd mae'r 'cyfle cynharaf'? Mae'n fater brys, mae yna gynddaredd ffordd rhwng rhieni wrth iddynt ollwng eu plant bob bore.

Ateb - y Cynghorydd Wild

Rwy'n ymwybodol o faterion ledled y Ddinas ac rwy'n awyddus iawn i symud ymlaen gymaint â phosibl. Gobeithiaf mai'r flwyddyn academaidd hon yw hon ond ni fyddwn yn hoffi addo ond ceisiaf gael y wybodaeth ddiweddaraf am pryd y gallai fod.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dianne Rees

Mae'r prynhawniau tywyll a'r tywydd sy'n gwaethygu wedi amlygu'r perygl i weithwyr Canol y Ddinas / Parc Cathays o gau Stryd y Castell i geir modur preifat. Mae gan lawer o weithwyr proffesiynol eu swyddfeydd yn ardal Fusnes Heol y Gadeirlan. Mae'r llwybr byrraf ar droed i Barc Cathays, Llysoedd y Brifysgol a'r Gyfraith drwy Dir y Castell a Pharc Bute. Mae llawer o'r gweithwyr hanfodol hyn yn gorfod cario blychau a ffeiliau trwm i'w man gwaith dyddiol ac felly ni allant feicio. Rhaid iddynt fod yn eu man gwaith yn bersonol ac maent yn methu gweithio gartref neu swyddfa am y rhan fwyaf o'r amser oherwydd natur eu gwaith. Mae cau Stryd y Castell i geir modur preifat yn rhoi menywod a dynion yn ddiangen i berygl ac afiechyd mewn

nosweithiau tywyll yn yr Hydref a'r Gaeaf, sy'n arbennig o beryglus yn ystod Pandemig Covid-19. A wnewch ystyried ailagor Stryd y Castell i draffig, gan gynnwys ceir preifat, a chaniatáu parcio ym Maes Parcio Neuadd y Ddinas, sydd wedi'i danddefnyddio ers misoedd gan fod Cynghorwyr a llawer o staff y cyngor yn gallu gweithio gartref?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Polisi'r Cyngor yw annog pobl i beidio ag ymgymryd â theithiau byr mewn ceir ar draws y Ddinas ac nid yw'r gweithwyr cyfreithiol proffesiynol wedi'u heithrio rhag hynny. Rydym yn pryderu am unrhyw faterion diogelwch. O ran blychau trwm, mae'n amlwg mai ychydig iawn o waith papur sydd bellach wedi'i normaleiddio a deallaf fod y proffesiwn cyfreithiol yn defnyddio systemau achos digidol i helpu gyda hyn. Cyn bo hir bydd modd cael tacsi o'r Llysoedd i Heol y Gadeirlan drwy Stryd y Castell a byddai'r pris yn gystadleuol os nad yn rhatach nag ychydig oriau o barcio ar Rodfa Edward VII.

Mae'n dda gwybod bod llawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn fy ward wedi ymrwymo i deithio llesol drwy gerdded i'r gwaith yn y Ganolfan Ddinesig a gallant wneud yr un mor hawdd drwy ddefnyddio Stryd y Castell, Heol y Dug a Ffordd y Brenin.

Bydd y cynllun dros dro yn symud traffig cyffredinol o'r strydoedd hyn ac yn helpu i wneud yr ardal yn fwy diogel i bob defnyddiwr ffordd a cherddwr, tra hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u dogfennu'n dda gydag ansawdd aer gwael ar Stryd y Castell. Bydd hefyd yn dileu tagfeydd ac yn cefnogi symudiadau trafnidiaeth gyhoeddus mwy effeithlon. Nid wyf yn deall pam y dylid defnyddio maes parcio Neuadd y Ddinas pan fydd digon o le parcio ar y strydoedd o'i amgylch.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Dianne Rees

Mae'r maes parcio'n wag, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n fawr. Mae gennym y sefyllfa freintiedig fel gweithwyr y Cyngor a Chynghorwyr i allu gweithio gartref, gan leihau faint o ddefnydd o gar a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n rhaid i bobl eraill fynd i'r gwaith, mewn amgylchiadau anodd yn ystod oriau byr o olau dydd, gan deithio ar draws y Ddinas gyda gwaith papur neu beiriannau, mewn dillad ffurfiol, felly nid yw'n ymarferol. Rhaid i ni ddeall fel Cynghorwyr fod gan bobl eraill fannau gwaith mwy anodd. Roedd yr ardal fusnes yn Heol y Gadeirlan yn ffynnu, nid oeddent yn gallu gweithio am 6 mis wrth i Lysoedd gau, ac mae'n rhaid iddynt nawr weithio yn ystod misoedd y gaeaf. Beth fyddwch chi'n ei wneud i ddarparu llwybrau diogel, yn enwedig i fenywod a dynion iau sy'n gorfod teithio drwy'r parc gan mai dyma'r llwybr byrraf, ydych chi'n mynd i oleuo'r parc i sicrhau eu bod yn ddiogel?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Y llwybr y byddwn yn ei ddilyn yw Stryd y Castell a Ffordd y Brenin sydd bellach yn fwy diogel nag o'r blaen oherwydd y cau, mae mwy o gerddwyr o gwmpas yno yn gwneud iddo deimlo'n fwy diogel. Dydw i ddim yn deall a ydych chi'n awgrymu ein bod yn caniatáu i faes parcio Neuadd y Ddinas gael ei ddefnyddio gan un proffesiwn penodol ond mae digon o leoedd o gwmpas yno sy'n cael eu tanddefnyddio ac o'r

dydd Sul hwn byddant yn gallu defnyddio tacsi neu fws a fydd yn eu cael o bosibl yn gyflymach ac yn rhatach.

Cwestiwn – y Cynghorydd Gordon

Pryd mae Pont Grog y Gored Ddu yn mynd i ailagor? Mae parhau i gau'r bont hon yn atal cymudwyr beiciau rhag cyrraedd y gwaith ar brif lwybr oddi ar y ffordd, ac mae'n atal pobl rhag mynd am dro cylchol o amgylch Parc Bute, Caeau Coopers a Chaeau Pontcanna. Am resymau hybu iechyd a lles, mae trigolion Ward Glanyrafon yn annog y Cyngor i ailagor y bont hon.

Ateb – y Cynghorydd Bradbury

Yn dilyn fy ateb i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig fis diwethaf, mae arolwg strwythurol diweddar, a gomisiynwyd gan Brifysgol Caerdydd, wedi canfod bod angen adnewyddu rhan o ddeciau'r bont, ac hefyd nifer fach o baneli rhwyll metel.

Rwy'n deall yn iawn ganlyniadau parhau i gau'r bont, ond rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi bod sicrhau diogelwch defnyddwyr y bont o'r pwys mwyaf. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn aros am gadarnhad o'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn gan y Brifysgol, ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hyn. Mae'n bwysig nodi mai Prifysgol Caerdydd sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r bont hon.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Gordon

Pryd yr ydych yn disgwyl ateb gan y Brifysgol yn dweud pryd y caiff ei baratoi, fel y mae'r arolwg yn dangos bod angen iddo fod?

Ateb – y Cynghorydd Bradbury

Rwyf wedi gofyn i Swyddogion fynd ar drywydd hyn yr wythnos hon i geisio ei symud ymlaen ychydig, gan fy mod yn deall ei fod wedi bod yn broblem i nifer o Gynghorwyr Ward. Byddaf yn cyfarfod â Swyddogion yr wythnos nesaf a byddaf yn ceisio cael llinell amser.

Cwestiwn - y Cynghorydd Lister

Mae nifer o deuluoedd sydd ar y rhestr aros am dai wedi cysylltu â mi gan eu bod yn byw mewn eiddo gorlawn. Mae llawer ohonynt wedi bod yn aros ers amser maith. A oes unrhyw beth y gall yr Aelod Cabinet ei wneud i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Rwyf yn cydnabod problem tai gorlawn yn y ddinas a'r pwysau ychwanegol y mae hyn yn eu rhoi ar deuluoedd ar hyn o bryd.

Mae 265 o aelwydydd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol y cydnabyddir bod ganddynt angen tai uchel ac sy'n orlawn. O'r rhain, mae 57 yn denantiaid cyngor

presennol. Yn anffodus, oherwydd y cyflenwad byr o dai cymdeithasol, yn enwedig eiddo mwy, gall gymryd peth amser i'r teuluoedd hyn gael eu hailgartrefu.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ganolbwyntio ar y mater hwn gan ystyried effaith ychwanegol y pandemig. Mae cynllun wedi'i ddatblygu, sy'n cynnwys amrywiaeth o opsiynau ar gyfer aelwydydd gorlawn megis blaenoriaethu lle y gallwn, symud i eiddo tai cymdeithasol mwy a chynyddu'r cymhellion i annog tenantiaid i israddio, gan ryddhau eiddo mwy i'r rhai sydd eu hangen.

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n fwy priodol ymestyn cartref presennol y cyngor ac rydym yn archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o wneud hyn gyda'r tarfu lleiaf posibl. Byddwn hefyd yn helpu plant hŷn i symud ymlaen i lety ar wahân lle mai dyma'r ateb mwyaf priodol.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Lister

A fyddai cyfle i ateb rhywfaint o'r galw hwnnw gyda'r rhaglen adeiladu tai cyngor uchelgeisiol newydd sydd gennym ar y gweill?

Ateb – y Cynghorydd Thorne

Byddai ond weithiau mae yna broblem gan nad yw'r ardaloedd yr ydym yn adeiladu yn fannau lle mae teuluoedd mwy am symud. Rwyf yn falch o ddweud ein bod wedi caffael 20 eiddo 4 ystafell wely ychwanegol yn ddiweddar o Waites drwy bartneriaeth Caertrefi Caerdydd; mae'r eiddo hyn yn Llaneirwg, Willowbrook a bydd teuluoedd gorlawn yn cael blaenoriaeth ar gyfer y cartrefi newydd hyn a bydd rhai i mewn cyn y Nadolig. O'r 20 cartref newydd, mae 9 wedi'u targedu ar gyfer pobl ar y rhestr aros, byddwn hefyd yn siarad ag aelwydydd gorlawn dros y misoedd nesaf, gan ddechrau gyda'n tenantiaid ein hunain, i weld pa atebion fyddai orau iddynt fynd i'r afael â'u sefyllfa.

123 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

124 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOL AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 24 Tachwedd 2020.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor, yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol, yn cymeradwyo penodiadau Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel y nodir yn Atodiad 1 ar y Daflen Diwygiadau, pob un am dymor o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

125 : PENDERFYNIAD SWYDDOG - YR UWCH DÎM RHEOLI

Nodwyd Penderfyniad y Swyddog.

## 126 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 17 (f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried, a'r ymateb, eu cynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.